

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)**

16 Tachwedd 2022

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd Dr S Hancock, Dr R Heath-Davies,
Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd V Thomas,
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Wiggins.

Swyddogion yn Bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill, Mrs C Llewellyn
(Cofnodion).

(Arolwg Safle: Saundersfoot 10.15am – 11.00am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs D Clements, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs S Skyrme- Blackhall a'r Cynghorydd C Williams.

2. NP/22/0388/FUL – Anedd newydd - Kenmore, Pen y Craig, The Glen, Saundersfoot

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngtu â safle'r cais a'r ardal o'i gwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 19 Hydref 2022 pan gafodd ei ohirio er mwyn caniatáu ymweliad safle. Ceisiwyd caniatâd cynllunio i ddymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ deulawr to gwastad yn ei le, gan gynyddu i dri llawr tua'r dwyrain. Roedd tŷ pwll nofio ar wahân hefyd gerllaw'r pwll nofio allanol, a'r bwriad oedd ei ddisodli yn ogystal.

Er y nodwyd bod y dyluniad cyfoes arfaethedig yn wahanol i'r anheddau cyfagos, roedd y rhain yn amrywio o ran eu graddfa a'u dyluniadau ac nad oedd unrhyw ddyluniad cyson nac unffurf yn yr ardal. Roedd y tŷ arfaethedig hefyd wedi ei leoli ymhellach yn ôl o du blaen y safle er mwyn gwella parcio a throi, ac mae ei leoliad, a'r llystyfiant sydd wedi hen ymsefydlu yn yr ardal, yn ei wneud yn llai amlwg. O ganlyniad, ystyriwyd bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran ei raddfa, dyluniad, ei safle a'r deunyddiau adeiladu, ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad nac ar amwynderau gweledol yr ardal o'i gwmpas nac ar



amwynder preswyl yr eiddo cyfagos. Yr argymhelliad oedd caniatáu'r cais, gydag amodau.

Dosbarthodd y swyddog y cynlluniau newydd oedd yn dangos nad oedd uchder y tŷ arfaethedig yn uwch nag uchder y simnai bresennol, gan y byddai rhan o'r eiddo yn cael ei gloddio i mewn i'r llethr. Byddai'r adeilad hefyd yn gogwyddo fel ei fod yn wynebu allan i'r môr, ac felly'n symud yn nes at y ffin, a chytunwyd i gynnwys y pellter rhwng yr eiddo arfaethedig a'i gymydog agosaf yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. O ran bwrw'i drem dros eiddo cyfagos, roedd y swyddogion o'r farn na fyddai hynny yn fwy nag o'r eiddo presennol.

Cerddodd yr Aelodau o gwmpas y safle, a gan fod yr ymgeisydd yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle roedd modd cael mynediad i du mewn yr eiddo ac o ffenestr y llawr uchaf i weld y cyswllt â'r adeiladau o'i amgylch. Dywedodd y swyddog bod y dyluniad wedi'i ystyried yng nghydestun y tai hyn. Mewn ymateb i gwestiwn am nifer yr anheddau to gwastad o fewn yr ystâd, dywedodd un Aelod ei fod wedi cyfrif pedwar, a chytunodd y swyddog i gadarnhau hyn cyn y cyfarfod.

Gan nodi'r lle cyfyngedig fyddai ar gael ar gyfer pwmp gwres o'r ddaear, gofynnodd un Aelod pa system wresogi fyddai gan yr eiddo, a dywedwyd y byddai paneli ffotofoltäig ar yr adeilad.

Gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb, daeth y Cadeirydd â'r ymweliad safle i ben.

